# Addysg / Education

Moderneiddio Addysg
*Modernising Education*

☎ (01286) 679247 Ein Cyf / Our Ref: Llythyr Penderfyniad Ysgol Y Garreg
Moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru
*Modernisingeducation@gwynedd.llyw.cymru*

24 Mehefin 2026

Annwyl Ran-ddeiliad,

**Hysbysiad ynglŷn â phenderfyniad Cyngor Gwynedd ar y cynnig i - "gau Ysgol Y Garreg 31 Awst 2026 a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen o 1 Medi 2026" yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.**

Ar ddydd Mawrth 9 Mehefin 2026, cymeradwyodd Cabinet Cyngor Gwynedd yn derfynol y cynnig i gau Ysgol Y Garreg ar 31 Awst 2026 a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen o 1 Medi 2026. Yn unol â chyfansoddiad Cyngor Gwynedd, daeth penderfyniad y Cabinet yn weithredol ar 24 Mehefin 2026. Cynhaliwyd cyfnod gwrthwynebu statudol rhwng 25 Chwefror a 24 Mawrth 2026. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig ac o ganlyniad, cefnogodd y Cabinet yr argymhelliad i gadarnhau'r cynnig yn derfynol.

Mae'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 9 Mehefin 2026, sef yr Adroddiad Gwrthwynebu (eitem 6) yn ymhelaethu ar y cefndir a'r broses statudol. Mae'r adroddiad yma ynghyd a dogfennau eraill perthnasol ar gael ar wefan Moderneiddio Addysg.

Datblygwyd y cynnig o ganlyniad i'r prif heriau oedd yn wynebu'r ysgol, sef:

- Niferoedd isel iawn o ddysgwyr yn mynychu'r ysgol – roedd dau ddysgwr ar y gofrestr yng nghyfrifiad CYBLD Ionawr 2026;
- Canran uchel o lefydd gweigion gyda 95% o lefydd gweigion yn yr ysgol (dosbarth Derbyn i Blwyddyn 6);
- Rhagamcanion yn seiliedig ar niferoedd CYBLD Ionawr 2026 yn awgrymu na fydd dysgwyr o oedran statudol yn yr ysgol ym mis Medi 2026 gan nad oes dysgwyr yn y dosbarthiadau Derbyn i blwyddyn 5 nac ychwaith yn y dosbarth Meithrin.

Yn achos Ysgol Y Garreg sydd wedi ei dynodi yn ysgol wledig yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r gofynion gweithdrefnol ychwanegol mewn perthynas â llunio cynigon ar gyfer ysgolion gwledig a chynhaliwyd nifer o asesiadau effaith. Bu i'r ffactorau canlynol gael eu hystyried gan y Cabinet yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018:

- Ansawdd a safonau mewn addysg
- Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion
- Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill
- Ffactorau cyffredinol eraill
- Ffactorau penodol wrth ystyried cau ysgolion
- Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio
- Yr effaith debygol ar y Gymuned
- Yr effaith debygol ar yr Iaith Gymraeg
- Cydraddoldeb
- Gofynion Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion

- Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran
- Arweinyddiaeth a staffio
- Adnoddau ariannol
- Addasrwydd a chapasiti Ysgol Cefn Coch ar gyfer dysgwyr dalgylch Ysgol Y Garreg i'r dyfodol.

Y mae'r Awdurdod o'r farn yn dilyn cynnal y cyfnod gwrthwynebu, na fyddai'r un o'r opsiynau eraill, gan gynnwys ffederaleiddio, yn mynd i'r afael a'r prif heriau sydd yn wynebu'r ysgol ac mai gweithredu'r cynnig yw'r ymateb mwyaf priodol i sefyllfa Ysgol Y Garreg.

Amlinellir isod y rhesymau dros gymeradwyo'r cynnig, gan gyfarch y ffactorau perthnasol a nodir yn adrannau 1.3 i 1.7 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018:

**Ansawdd a safonau mewn addysg:**

- Bydd cyfle i addysgu plant mewn grwpiau mwy, gyda chyfoedion oed-berthnasol i ehangu ar eu profiadau.
- Yn ôl adroddiadau diweddaraf Estyn, mae Ysgol Cefn Coch yn cynnig addysg o ansawdd a safon sy'n gyfatebol, ag Ysgol Y Garreg, fan leiaf felly ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar ansawdd a safonau addysg.

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion:**

- Yn sgil gweithredu'r cynnig bydd gwell cysondeb mewn maint dosbarthiadau a lleihau'r ystod oedran o fewn dosbarthiadau ysgolion cynradd yr ardal gyda'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn ysgol ble mae'r niferoedd a rhagamcanion yn fwy cadarn a chynaliadwy i'r dyfodol.

**Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill:**

- Byddai gweithredu'r cynnig yn rhesymoli cost fesul dysgwr mewn ysgolion ac yn lleihau'r amrediad mewn cost fesul dysgwr i holl blant Gwynedd.
- Rhagwelir y byddai gwireddu'r cynnig yn arwain at arbediad blynyddol mewn costau refeniw.

**Ffactorau cyffredinol eraill:**

- Byddai dysgwyr y dalgylch yn parhau i dderbyn eu haddysg mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg (Categori 3).
- Byddai dysgwyr y dalgylch yn parhau i dderbyn eu haddysg mewn ysgol o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi ac yn derbyn cludiant yn unol â pholisi Cludiant y Sir.

Yn unol â'r penderfyniad uchod, bydd Ysgol Y Garreg yn cau ar 31 Awst 2026. O 1 Medi 2026, Ysgol Cefn Coch fydd yr ysgol ddalgylch ar gyfer dalgylch presennol Ysgol Y Garreg i'r dyfodol.

Os ydych angen gwybodaeth bellach, mae modd i chi gysylltu â - ModerneiddioAddysg@gwynedd.llyw.cymru

Yn gywir,

Gwern ap Rhisiart
**Pennaeth Addysg**
**Cyngor Gwynedd**